YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1899. [RHIF 136.

MRS. A. G. JONES, ABERDAR.

YR wyf yn dra sicr y bydd i holl ddarllenwyr yr YMOFYNYDD ymuno â mi i estyn y cydymdeimlad dyfnaf â'r Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn y brofedigaeth lem sydd wedi ei oddiweddyd yn marwolaeth ei briod hoff. Nid oes neb yn mhlith yr Undodiaid yn Nghymru yn teilyngu ein parch yn fwy na Mr. Jones, oblegid mae wedi bod, nid yn unig yn Olygydd yr YMOFYNYDD am gyfnod maith, ond mae, hefyd, wedi bod o'r help mwyaf i'r Golygydd presenol am y deng mlynedd diweddaf. Mewn cyfeiriadau ereill, nid oes neb wedi gweithio mwy dros les a llwyddiant yr achos nag efe. Felly, naturiol yw i ni, pe ond ar yr ystyriaethau hyn, i ddatgan ein teimladau o dristwch yn ngwyneb y golled fawr

a gafodd yn marwolaeth gwraig ag oedd yn ymgeledd gymhwys i'w gwr yn ystyr lawnaf a goraf yr ymadrodd, a mam dyner a gofalus o les uchaf ei phlant. Bu Mrs. Jones yn clafychu am amryw wythnosau, ond ni feddyliodd neb o'r perthynasau fod un perygl yn bod hyd o fewn ychydig ddiwrnodau i awr yr ymddatodiad. Bu farw ar y 7fed o Fawrth, yn ei 47 mlwydd o'i hoedran. Ni fu dynes erioed yn fwy gweithgar na'r ymadawedig; ac yn ystod ei bywyd, llanwodd gylchoedd pwysig gyda boddhad cyffredinol. Fel cydaelod â hi ar Fwrdd y Gwarcheidwaid yn Merthyr Tydfil, ar adeg gynil a chyffrous, pan oedd canoedd a miloedd o weithwyr newynog yn curo bob dydd am wythnosau o'r bron wrth ddrws y tloty am help, a phan oedd cryn fedr a doethineb yn eisieu i ymdrin â'r amgylchiadau poenus oedd yn ein gwynebu, gallaf ddwyn tystiolaeth i'r callineb a'r meddwl clir a ddangosai Mrs. Jones yn ystod yr holl helbul. Hynodid hi â'r un cymhwysderau ar y byrddau ereill, ac mae ei marwolaeth wedi gwneyd adwy nad hawdd ei lanw. Yr wyf yn meddwl mai y dystiolaeth oreu i boblogrwydd Mrs. Jones oedd y dorf fawr a pharchus a ddaeth yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i dŷ ei hir gartref, ac ni rydd yr adroddiad canlynol o'r gladdedigaeth, er mor gyflawn a rhagorol ydyw, ond syniad gwan am y dwysder teimlad a'r tristwch a feddianai bob bron yn yr angladd lluosog. Nid wyf yn gwneyd unrhyw ymddiheurad am gyhoeddi darlun o'r ymadawedig yr ail waith ar dudalenau yr YMOFYNYDD.

J. H. D.

Cymerodd claddedigaeth Mrs. Jones le dydd Gwener, y 10fed o Fawrth, yn Nghladdfa Gyhoeddus Aberdar. Ar ol gwasanaeth byr yn y tŷ gan y Parch. W. J. Phillips, Newton Nottage, ffurfiwyd yn orymdaith i'r Hen-Dŷ-Cwrdd. Yn yr orymdaith yr oedd yn bresenol y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr; Jenkin Thomas, Highland Place, Aberdar; W. Griffiths, LL.D., Pontypridd; T. J. Jenkins, Gellionen; J. E. Jenkins, Dowlais; J. Hathren Davies, Cefn; D. J. Williams, Merthyr; David Evans, y Wig; J. E. Jones, Cwmbach; David Rees, Pentre; J. J. George, Aberdar; W. S. Davies (A.), Horeb, Llwydcoed; J. Morgan (M.C.), Brynseion, Trecynon; J. Lewis (M.C.), Llwydcoed; J. Mills (B.), Abernant; J. Griffiths (B.), Calfaria; B. Evans (B.), Gadlys; W. Harries, cyn-Lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru; W. James, Bethania, cyn-Lywydd y Methodistiaid Calfinaidd; D. G. Jones (M.C.), Cwmdar; H. T. Stephens (M.C.), Carmel, Gadlys; J. D. Rees (A.), Salem, Robertstown; D. Sulgwyn Davies (A.), Siloh, Gadlys; T. Jones (B.), Carmel, Aberdar; J. Jones (M.C.), Mill Street; D. Silyn Evans (A.), Siloa, Aberdar; W. B. Richards (A.), Trecynon; J. Davies (A.), Soar, Aberdar; D. Griffiths (A.), Cwmdar; D. G. Jones (M.C.), Cwmdar; a J. Grawys Jones (A.), Ebenezer.

Yna daeth aelodau Bwrdd Gwarcheidwaid Merthyr, yn mhlith y rhai yr oedd Mri. D. P. Davies, Y.H., Cadeirydd y Bwrdd; Rees Evans, Commercial Street; J. Rees, Ty'rheol; a Mrs. D. M. Richards, Wenallt.

Yn mhlith ei chydaelodau ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Ganolraddol Aberdar, gwelsom Mri. G. George, Y.H.; D. P. Davies, Y.H.; J. Howell, Green Hill, Aberaman.

Yr oedd hefyd yn bresenol lawer o aelodau Pwyllgor Llywodraethol Cymdeithas Ryddfrydol y Gwragedd yn Aberdar, ac yn eu plith Miss Edwards, yr Ysgrifenydd; Miss Watkins, Cross Street; Miss Phillips, Park Schools; Mrs. J. A. Williams, Cwmaman; Miss Gwenllian George; ac ereill.

Yn mhlith y cyhoedd, gwelsom Dr. Isaac Bankes; Mr. L. N. Williams, Mrs. Williams, a Miss Madge Williams, Caecoed; Mr. Davies, Trecynon; Mr. a Mrs. R. David, The Grange; Mri. J. Morgan, Abernant-y-Groes; P. Rhys, cyfreithiwr, Aberdar; T. Walter Williams, bargyfreithiwr, Glen View, Aberdar; D. Lleufer Thomas, bargyfreithiwr, Abertawe; David Rees, Ynyshir; D. W. Price, Aberdar; T. Lewis, Top Hill, Pontypridd; W. Hodges, Aberdar; D. Eiddil Jones a Mrs. Jones, Cefn; Mrs. a Misses Griffiths, Mri. G. Griffiths, D. R. Griffiths, E. Griffiths, Pantglas; Evan Jones, Trecynon; Thomas Dawkin Williams, Miss Williams, a Mr. M. Williams, Bryngwyn; Mri. John Enoch, Caerdydd; Thomas Walters; E. Howell, Maesgwyn; Morgan Williams, Brynhyfryd; Mrs. Davies, Ynyslwyd; Mri. D. James; W. Charles; Evans Jones; D. Davies, Trecynon; W. Morgan, Y.H., Pant, Merthyr; J. E. Morgan, Windsor Villa; J. Griffiths, Park Schools; Charles Reed; Evan Hopkins; Rees Phillips; Rees Williams, Brynhyfryd; W. Thomas, Cwnrig Cottage; Joseph Jenkins, Clydach Vale; T. Phillips, Clifton Street; Rees Llewellyn, Bwllfa; John Thomas, Mill Street; T. Lewis, Welsh Harp; Gwilym Jones, cyfreithiwr, Mountain Ash; M. J. Harris, Mill Street; Mother Shepherd; Mri. D. W. Jones, Victoria Square; T. Bowen, Cwmdar; W. Jenkyn Thomas, M.A., Prifathraw Ysgol Ganolraddol Aberdar; J. W. Dodgson, M.A., W. C. Cox., M.A., a Evan Williams, Athrawon yr Ysgol Ganolraddol; W. Griffiths, cyfreithiwr, Pontypridd; R. Bedlington; Mrs. Davies, Cwnrig Cottage; Mri. R. David, Caecoed; R. Owens; a llawer ereill.

Yn dilyn, yr oedd yr elorgerbyd, yn mha un yr oedd y corff, a cherddai y rhai canlynol, diaconiaid ac aelodau yn Hen-Dŷ-Cwrdd, o bob tu i'r elorgerbyd :— Mri. E. D. Howell, Gelli-isaf; Jenkin Llewellyn; R. Llewellyn; W. Thomas; M. Jones, Harriet Street; a Llewelyn Hopkins.

Yna daeth y galarwyr, yn mhlith y rhai yr oedd y Parch. R. J. Jones a'i deulu; Dr. Griffiths, Caerdydd (brawd); Mr D. Jones (brawd-yn-nghyfraith); Mr. a Mrs. Thomas, Frondolau, Ceinewydd; Mr a Mrs. Rees, Mount Pleasant; Mr. David Evans, Cilgellisaf, Llanbedr; a Mr. Daniel Rees, Felindre.

Ar ol cyrhaedd yr Hen-Dŷ-Cwrdd, darllenwyd a gweddïwyd yn effeithiol gan y Parch. J. HATHREN DAVIES, Cefn; a darllenwyd llythyrau o gydymdeimlad oddiwrth Lywodraethwyr yr Ysgol Ganolraddol, y Bwrdd Ysgol, y Clwb Rhyddfrydol, Pwyllgor Rhyddfrydol y Gwragedd, Bwrdd y Gwarcheidwaid, &c. Yna galwyd ar

Y Parch. W. JAMES, cyn-Lywydd y Methodistiaid Calfinaidd. Dywedodd nad oedd wedi bwriadu dyweyd dim, ond nis gallai wrthod pan ofynwyd iddo. Adnabyddent Mrs. Jones oll; a'i hadnabod oedd ei charu a'i pharchu. Llanwai lawer o gylchoedd pwysig yn gysylltiedig âg Addysg o'r ysgol elfenol i'r làn; ac yr oedd y Bwrdd Ysgol wedi ei hethol yn un o Lywodraethwyr yr Ysgol Ganolraddol. Yr oedd yn flaenllaw gyda phob mudiad i ddyrchafu y bobl. Llanwai gylch pwysig yn y capel; ond nid oedd ef yn myned i'r ddyweyd dim; ei duedd ef oedd edrych yn mlaen. Yr oedd hi wedi croesi y llinell oedd yn gwahanu amser a thragywyddoldeb. Dywedai un o'r hen Trioedd Cymreig:—"Tri Anfeidrol y sydd, Duw, Eangder, a Pharhad." Ac yr oedd hi wedi dechreu erbyn hyn ar yr anfeidrol diweddaf.

"Trag'wyddoldeb, mawr yw'th enw,
Mawr yw'th anfesurol daith."

Nid oedd y meddwl dynol yn barod i roddi i fyny y rhagolygon am dragywyddoldeb. Nid oedd achos iddynt ofidio am yr ymadawedig. Nid oedd nac oerfel nac ofn arnynt pan y cofient fod y byd mawr tragywyddol, fel y byd hwn, dan lywodraeth Duw Cariad; a byddent mor ddedwydd yno ag y gall Duw wneyd iddynt fod. Ofnai ef unwaith fod Gwyddoniaeth yn myned i'n hamddifadu o'r dyfodol, ond yr oedd ef yn ddiweddar wedi darllen llyfr gan un W. James, o'r America, yn yr hwn yr oedd y gwyddonydd mawr hwnw yn profi nad oedd Gwyddoniaeth ddim yn diddymu rhagolygon bywyd tragywyddol. Yr oedd greddf mewn dyn yn dyheu am y tragywyddoldeb yr oedd Duw yn barotoi iddo; ond dylent gofio y byddai tragywyddoldeb dan ddeddf; ac os byddent am dragywyddoldeb dedwydd, yr oedd yn rhaid ufuddhau deddfau y byd tragywyddol. Dyddanwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn, a'r gobaith am ail gyfarfod. Ei air diweddaf oedd, "Tragywyddoldeb dedwydd i chwi oll."

Y Parch. Dr. GRIFFITHS a ddywedodd fod dau amcan i'r cyfarfod hwn: dangos parch i'r ymadawedig, a'n cydymdeimlad â'r rhai oedd ar ol. Yr oedd y rhai oedd yn byw yn Aberdar yn adnabod yr ymadawedig, ac yr oedd y cynulliad presenol yn brawf o'r parch a deimlent at Mrs. Jones. Un o'r nodweddion yn ei chymeriad oedd ei bod yn llawn bywyd. Yr oedd yn fyw gyda phob mudiad yr oedd hi yn credu ynddo. Yr oedd mewn cydymdeimlad dwfn â phob mudiad er dyrchafu y bobl. Llanwodd ei bywyd byr â gwaith. Yr oedd yn llawn yn mhob cylch. Gwnaeth gryn waith yn y cylch gwleidyddol; ac yr oedd ef yn

credu fod yn rhaid i weinidogion a dynion crefyddol gymeryd rhan fwy blaenllaw yn y dyfodol mewn gwleidiadaeth, ac nid gadael hyny i gymeriadau isel. Gweithiodd yn galed dros Addysg, dros Ddirwest, ond yr oedd gwraidd ei holl waith yn ei chrefydd. Bydded i wragedd a merched Aberdar gael deuparth ei hysbryd hi. Duw a gynorthwyo ac a fendithio ein brawd a'i deulu yn yr amgylchiad.

Ar ol canu emyn, gweddïodd y Parch. JENKYN THOMAS, Highland Place, ac aed i'r Gladdfa Gyhoeddus, lle y gweddïodd y Parch. R. C. JONES, Llanbedr, yn effeithiol iawn.

D. M. R.

MAE AFON GER LLAW.

MAE afon ger llaw, mi glywaf ei lli',
Wrth ddyfod o draw, yn sisial ei si;
Er nad allaf wel'd ei gloew ddw'r glan,
Mae tabwrdd fy nghlust yn clywed ei chân.

Mae afon ger llaw ar waelod y fro,
Mi glywaf ei llais yn siarad â'r gro;
Mae weithiau yn gryf, ac weithiau yn wan—
A'i thònau mewn hwyl chwareuant â'r làn.

Mae afon ger llaw, 'rwyf ati'n nesâu,
Mae adar y nen o'i hamgylch yn gwau;
Ymolchant yn aml yn ei gloew li',
A nodau eu cân gymysgant â'i si.

Mi safaf yn awr yn ymyl y lli',
Mi welaf y ffrwd, mi glywaf ei si;
A gwelaf y Llan, a'm cartref ger llaw,
A phont dros y dw'r, i groesi tu draw.

Fel yna daw swn llifeiriant o draw,
Hen afon ddu, ddofn, marwolaeth a'i braw;
Mi wn fod ei llif yn ymyl yn awr,
Mae gwyneb y tir yn gogwydd i lawr.

Mi welaf y llif, mae'n wyllt ac yn ddu,
Mi deimlaf ei iâs, mi glywaf ei ru;
Disgynaf i'w ffrwd, heb gryndod na braw,
A chroesaf i dir dystawrwydd tu draw.

R. J. DERFEL.

IACHAWDWRIAETH YN AWR.

YN yr oes hon nid yw Eglwys Crist yn ymorphwys ar na phab na Phedr, ond ar yr egwyddor o gymdeithas, ar y wyddoniaeth o gyfiawnder cymdeithasol, sydd yn gwadu hawl y cryf i ddodi eu beichiau ar y gwan. Cydymdeimlai Iesu hyd waelodion ei fodolaeth â dynolryw. Ni feddai ar grefydd ffurfiol buritanaidd yn fwy na'r blodau ar ymylon y ffordd, neu yr ehedydd sydd yn canu mor felus foreu Sul ag y cana ar ddiwrnod gwaith. Daeth efe "yn bwyta ac yn yfed." Cymerodd ei le wrth ochr y llafurwyr, yn un â hwy mewn gwaith cyffredin. Cofleidiai bawb yn Ei freichiau. Mynegodd yr oraclau hyny o drugaredd fyw gan yr hon mae calon y nefoedd yn llifo drosodd. "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym."

Dyma beth oedd crefydd Crist. Llafuriodd a dyoddefodd er mwyn dwyn i'r byd bob daioni a gogoniant, bob nerth ac hapusrwydd ag sydd yn ddichonadwy iddo. Cafodd y gweithwyr yn edwino mewn *slums* ac yn finteioedd. Ceisiodd eu tywys allan i baradwys, lle y triga diwydrwydd. Ymddangosodd, nid megys yr offeiriad, ond y llafurwr. Aeth o amgylch, nid fel esgob neu brelad, ond fel athraw, gweithiwr, a brawd. Darfu i'r sawl a ymbesgent ar drais a gormes—y cyfoethog, y segurwyr, bwytawyr dynion, y sawl a fynent fod yn *respectable* oddiar ddybenion o hunan-les—ei ladd Ef.

Dysg Iesu ni y gallwn ni weled Duw cyn belled ag y gwelwn Ef mewn dyn; y gallwn garu Duw cyn belled ag y carwn Ef mewn dyn. Golyga "cariad at Dduw a chariad at ddyn" gariad at Dduw mewn dyn. Yn rhifyddiaeth y nefoedd y mae y ddau yn un. Golyga Duw y Dwyfol ynoch eich hunan. Mae pob dyn yn sill o'r Gair a lefarwyd. A'r Duw a wareda yr hil helbulus hon rhag tlodi, poen, a drygioni, yw y daioni yn nghalonau y bobl wedi ei ddeffroi. Nid llefain "Arglwydd, Arglwydd," yw addoliad, ond helpu y gwan a chodi yr hwn sydd ar lawr. Mae Duw wedi ymgnawdoli mewn dyn a benyw; ceisiwch Ef yno, a chwi a'i cewch, a thrwyddo fywyd tragywyddol. Ein holl ddyledswydd grefyddol yw parchu y natur ddynol a'i gwasanaethu. Peidiwch gwastraffu eich anadl i ofyn gan Dduw i fod yn drugarog; cystal gweddïo ar yr haul i roddi goleuni. Golyga crefydd Crist gael gafael ar Dduw mewn dyn. Gwasanaethu a charu Duw yw wrth wasanaethu a charu dyn. Gwisgai yr unig Dduw a welodd dyn erioed wyneb brawd mewn angen a phoen. Yr unig Dduw a welwch chwi neu finau byth yw y Duw sydd yn ymgnawdoli bob moment yn mherson ac yn angenion pob dyn. Yr unig gyfle a gewch chwi byth i addoli a gwasanaethu Duw yw y lef sydd yn eich galw bob dydd i ddyrchafu eich cyd-ddyn. Y

gwasanaeth brawdol i'r dyn yn eich ymyl a'ch dwg chwi wyneb yn wyneb â bywyd yn mywyd â Duw. Mae bod yn ddysgybl i Iesu yn golygu dau beth—ymgyflwyniad o'ch bywyd i ddyn, ac ymgysegriad o'ch bywyd i achos dyn—y ddau hyn, un ydynt.

Teyrnas Dduw yw teyrnas o gyfiawnder cymdeithasol ar y ddaear. Yn ol y drefn gymdeithasol newydd hon mae dynion yn feibion i Dduw, ac yn frodyr y naill i'r llall. Rhaid amddiffyn y gwan, ac nid ei lethu gan y cryf; rhaid i'r cyfoethog helpu ac nid ysbeilio y tlawd. Credwch fod Duw yn Dad cariadus, a gwnewch dda i'ch cyd-ddynion, meddai Iesu, ac fe ddylifa melus hedd y nefoedd i mewn ar eich heneidiau. Gwnewch fel y gwnaf Fi, a chewch wybod fod Fy nysgeidiaeth yn Ddwyfol, oblegid gwneyd da yw ffrwyth gwir grefydd.

Mae nefoedd Iesu yma ac yn awr mewn tangnefedd melus a bywyd brawdol—nid heolydd o aur, nid pyrth o berlau, nid saint yn canu, nid telynau trystfawr, nid caniadau didaw, na llefau uchel. Mae ei uffern hefyd yma ac yn awr, yn rheol ddirmygus hunangarwch a thrachwant.

Ceisiai Iesu ddinystrio'r cyflyrau a'r cymhellion sydd yn achosi drwg ac yn rhwystro da. Ymdrechai sefydlu ar y ddaear drefn gymdeithasol newydd, lle y gallai perffaith anhunangarwch gydranu â phawb holl drysorau natur a bywyd cymdeithasol. Golygai "Teyrnas Nefoedd" iddo gyfnewidiad yn holl amodau cymdeithas, yn dwyn i bawb hapusrwydd ac esmwythyd, a pheri i holl gysylltiadau masnachol gael eu dwyn yn mlaen ar egwyddor gyfiawn a brawdol. Nid goroesiad o'r mwyaf addas oedd Ei gyfraith Ef, ond addasu pob peth i oroesi; a'r deyrnas a gynygir ganddo Ef, nid rhyw deyrnas bellenig yn y byd uwchwybrenol yw, ond y ddaear hon, lle yr ydym yn awr yn byw—hon wedi ei gwneyd yn felus ac yn frawdol. Oddiwrtho Ef y dysgwn mai hyn yn unig yw bod yn gadwedig, iachawdwriaeth oddiwrth ein hunangarwch.

Melldithir y bywyd sydd yn cael ei fyw heddyw gan dlodi ac eisieu; y bywyd hwn, a hwn yn unig, y ceisia Iesu ddwyn iddo iachawdwriaeth gyflawn o'r ysbryd brawdol. Mae Ei deyrnas Ef bob amser ar bwys, ac nid yn hofran yn yr awyr. Byddwch fyw yn syml, llafuriwch yn onest; gwasanaethwch y Duw sydd yn llefaru yn eich rheswm a'ch cydwybod; amddiffynwch y gwan a'r blinderus, ac fe ewch i nefoedd, ac fe gewch ran o'r iachawdwriaeth gyffredinol sydd yn gynyrch tangnefedd ac ewyllys da ar y ddaear.

Dyfod mae yr awr, ac yn awr y mae hi, yr awr a wasga adref egwyddorion crefydd Crist, crefydd dyn, crefydd dynoliaeth. Nid eglwys wedi ei chau i fewn oddiwrth y byd; nid cymdeithas yn ymwroli yn unig am achubiaeth ei henaid ei hunan, gydag ofn a dychryn; nid sect yn cyflwyno ei hunan, ar wir ffasiwn sect, drwy ymneillduo oddiwrth ddyn. Crefydd Crist, crefydd i'r byd hwn ydyw, crefydd Teyrnas Nefoedd yma ar y llawr. Achuba bawb drwy amgylchu pawb â chyflwr gobeithiol ac iachus. Gof-

yna oddiwrthym oll wasanaeth diflino, uchel ac isel, cyfoethog a thlawd, gwrteithiedig ac anwybodus.

Os ydym i fwynhau rhan o iachawdwriaeth Iesu, rhaid i ni, fel Efe, geisio a chael y rhai colledig. Dim ond trwy achub ereill y gallwn ni waredu ein hunain o'r uffern o fywyd hunangar. Gwasanaeth i'n cymydog yw yr unig wir wasanaeth i Dduw. Y mae y wir Eglwys yn bodoli er mwyn y gymydogaeth, ac nid er mwyn y sect. Ni wna gwir grefydd ein gyru i bendrymu uwchben ein heneidiau ; ei hunig faen prawf yw defnyddioldeb i ereill.

C. F.

ALLAN O DYDDIADUR GWILYM MARLES.

HYDREF 13eg, 1875.—Yn y boreu i wrando tri o weinidogion yr Independiaid yn Nghapel Seion, Llandysul,—T. Rees, Maenygroes; J. Thomas, Brynmair; a W. Evans, Aberaeron. Teimlwn yn brudd fod cymaint o ddifrifoldeb yn cael ei wastraffu ar dduwinyddiaeth mor druenus o wael. Dywedwyd gan y tri bethau digon i wneyd dynion ystyriol yn Atheistiaid, oni bai fod rhyw olwg well ar grefydd i gael.

Dywedai [un] fod Duw yn rhoi rhai pethau i ddynion o'i anfodd ; am fod dynion yn eu taer geisio, nad yw Yntau yn hoffi pallu.

Am feddyliau nad oes Duw, sylwai y deuant ar eu tro, ond nad ydynt i gael croesaw a llety. Lladron ydynt ; dichon iddynt dori i fewn i dŷ, ond ni ddylid taflu'r drws yn agored iddynt, llawer llai eu gwahodd.

Y diweddaf oedd y gwaelaf o'r tri. Anogai ni i daflu athroniaeth i waelodion y môr, rhag iddi fyned rhyngom a Christ. Meddyliwn ynof fy hun, wrth edrych ar y gynulleidfa anllythyrenog, nad oedd raid iddo byth roddi y cynghor—na chawsid cymaint a gronyn o had mwstard yn yr holl gynulleidfa.

"Credwch bob peth yn y Beibl," meddai. "Fod y pysgodyn wedi llyncu Jonah, ïe, pe hyny i lawr yn yr Hen Lyfr, fod Jonah wedi llyncu'r pysgodyn."

"Nid yw y gwahaniaeth," meddai, "rhwng pechadur a phechadur—fod un yn cael ei gyfrif yn un mawr, y llall yn un bychan—yn ddim ond mewn geiriau.

"Dim ond pechodau bach, seremonïol, a faddeuid dan gyfraith Moses." (Lled gywir yma.) "Yr Aberth mawr yn unig all faddeu."

I came away sorrow-stricken, and longing to go forth, a poor apostle, to gainsay these so-called evangelists.

ODL ANERCH I HAYDN,

Mebyn y Parch. T. J. Jenkins a Mrs. Jenkins, Gellionen.

O! HAYDN bach! pa beth yw hyn
A ddaeth i'th hanes yn y byd?
Proffwydo wnaem o hyd, o hyd,
Y caem dy gadw rhag y glyn.

Daeth heibio angel gwyn ei lef,
A gwelodd Haydn yn mraich ei dad,
Sibrydodd wrtho,—Blentyn mad,
Mae'th le yn barod yn y nef.

Mae Tawe Villa der o barch
Yn wylo deigryn ar ei lwch;
Ac ambell flod'yn dyr ei flwch
O gydymdeimlad ar ei arch.

Mae cofio Haydn bach i mi
Yn fwy o nefoedd yn y byd;
Pe bai pleserau'r byd yn nghyd,
Ni fyddai'n bris ei gofiant cu.

Ei eiriau pert, a'i wên ddinam,
O'ent fel angylion yn y tŷ;
Ei hwyrol lais, a'i nosawl gri,
Oedd falm i galon tad a mam.

Ei fyw gerddediad at y drws
Oedd megys goleu blaen y wawr;
Symudai'n araf dros y llawr,
A syllem ar ei wyneb tlws.

Ei gudyn gwallt, a'i lygaid byw,
Fu'n gwau prydferthwch ar ei wedd;
Ond erbyn heddyw, porth y bedd
A'i dygodd ef i gorlan Duw.

Ffarwel, O! Haydn bach! ffarwel;
Carasem gael dy gwmni'n hŵy;
Hiraethlawn yw'n hamenau mwy;
O! Haydn bach! ffarwel, ffarwel.

BANOS.

Y DUWIOLDEB NA DDIFFYGIA.

HEN wraig o Gymraes oedd Mrs. Jones (oblegid fe wna yr enw y tro gystal ag un enw arall, i osod allan nodweddion yr hon y cyfeirir ati yn y llinellau hyn) yn dyfod o sir Aberteifi, heb nemawr ragor o Saesoneg ganddi nag oedd yn ofynol i ddwyn yn mlaen ei dyledswyddau beunyddiol. Enillai ei bywioliaeth trwy werthu llaeth yn un o ardaloedd y Brifddinas, a phob Sul hi a gyrchai i wrando ar y Parch. Thomas Belsham yn pregethu. Ymddangosai yr hen wraig yn un o ddyrys-bethau bywyd i ran fwyaf o'r sawl a gydaddolent â hi yn y capel; ni fedrent, ar un cyfrif, ddeall pwy les allasai hi dderbyn oddiwrth y gwasanaeth. Pan y darfu i rywun, yn anystyriol, roi y cwestiwn hwn iddi, yr unig ateb allasai hi roddi oedd na wyddai hi ddim yn iawn, ond ei bod hi, rywfodd, yn teimlo mai yno oedd ei chartref crefyddol; ei bod hi yno yn teimlo yn gysurus, ac fe wyddai fod pobpeth o'r goreu cyhyd ag yr oedd Mr. Belsham yn y pwlpud.

Yr wyf wedi meddwl lawer gwaith am yr hen wraig anwyl a ffyddlon hon. Yr oedd ganddi ei hargyhoeddiadau cryfion, ac yr oedd yn ffyddlon iddynt yn ei ffordd oreu hi. Nid oedd dim yn ei rhwystro i fynychu y gwasanaeth yn nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, yr hwn oedd yr adeg hono yn Wilderness Row, ond yn awr yn Jewin Crescent; neu fe allasai fod yn gwrando ar John Elias, pregethwr mwyaf nerthol ei oes, pan oedd yn taranu dychrynfeydd y ddeddf, ac yn ceisio rhoddi desgrifiad o dânau poethias y byd nesaf i dyrfa fawr o bechaduriaid ofnus, brodorion i gyd o Gymru, fel hithau. Ond ni chawsai y ffrydiau hyn o hyawdledd yr un dylanwad yn y byd arni hi, oddigerth, o bosibl, i ddeffroi ynddi deimlad o atgasedd at y cyfryw syniadau, neu i'w gyru yn benrhydd i ganol yr anffyddiaeth fwyaf chwerw, fel eiddo Richard Carlile. Mae yn sicr na fuasent wedi bod o un help iddi i feddianu y tangnefedd ysbrydol hwnw sydd mor ddymunol ac mor hanfodol i un yn ei sefyllfa hi, ag oedd yn gorfod gwynebu llawer 'storom a llawer o galedi yn ei bywyd bob dydd. O ganlyniad, yn hytrach nag uno â'i brodyr a'i chwiorydd Cymreig, o dan y fath amodau, gwelodd mai mwy cydnaws â'i theimlad a'i chwmffwrt oedd myned i Gapel Essex Street, heb air o Saesoneg, ac i'r capel hwn yr elai Sul ar ol Sul, gyda'r fath ffyddlondeb, nes yr oedd ei hesiampl yn ddigon i hela cywilydd ar lawer a fynychent yno, ac yn rhwym o fod yn peri syndod a boddhad i'r hen weinidog ardderchog. Trwy bob tywydd, poeth neu oer, gwlyb neu sych, yr oedd Mary Jones bob amser yn brydlon yn ei lle. A phaham lai?

Nis gallasai ddeall iaith ehedog y pregethwr, iaith nad oes neb yn ymostwng i'w darllen heddyw, ond yr hon oedd yr adeg

hono yn goglais y glust, ac yn boddhau y dychymyg, ac yn ddiamheu yn help i feithrin yr ysbryd defosiynol yn y gweddill o'r gynulleidfa. Ond y mae genym le i ddiolch nad yw holl byrth yr ysbryd ddim yn gyfyngedig i ddylanwadau iaith fawreddog, a hyny yn unig. Deallir hyn yn drwyadl yn mhob cyfundeb perthynol i'r Crynwyr.

Mewn llawer ac amrywiol ffyrdd y mae dynion wedi cael eu tywys i ymbalfalu, gyda chalonau hiraethlawn, am gael gafael yn neheulaw Duw, yn nghanol y tywyllwch, ac wedi eu dyrchafu a'u nerthu.

Nid yw addoliad, o angenrheidrwydd, yn brofiad y rheswm a'r deall. Aethai yr hen wraig i Gapel Essex Street, am y teimlai y gallasai addoli yno. Aethai gyda'i chalon wresog Gymreig, a chafodd ei bod hi yno mewn cyffyrddiad â'r Anfeidrol a'r Tragywyddol; a theimlai yn curo oddifewn iddi alluoedd mawrion y byd a ddaw. Pan yr arllwysai yr organ allan ei cherddoriaeth swynol, ni allai na Chymro na Sais ei hawlio yn berchenogaeth iddo, teimlai yr adgofion mwyaf melus yn ymlifo i mewn ar ei henaid; ac fel Robert Collyer, yn eglwys Ffrengaeg Athanase Coquerel yn Paris, teimlai ei bod mewn cydymdeimlad â hen gyfeillion anwyl ag oeddynt yn mhell o dir. Yr oedd yn bresenol yn y corff yn y capel yn Essex Street, ond yn yr ysbryd yr oedd ar grwydr; y darllen, yr emyn, y weddi, a'r bregeth, er nas gallent gyffwrdd â'i deall, a'i gosodent, er hyny, mewn cyfeillach gysegredig â'i chydaddolwyr yn yr hen wlad draw yn mhell. Nid yw amser na phellder yn un rhwystr lle mae cariad ar waith. Weithiau cydblethir y gorphenol, y presenol, a'r dyfodol, yn un wê yn mhrofiad yr enaid. Ymheidiai adgofion arni, o bosibl, am y ffordd yr elai hi pan yn blentyn bach, gyda'i thad a'i mam, a'r gweddill o'r teulu, i addoli yn Llwynrhydowen, lle yr oedd yr hybarch Dafydd Dafis, o Gastell Hywel, yn dwyn yn mlaen y gwasanaeth mewn iaith ag oedd yn awr yn fwy cysegredig iddi nag erioed; ac efallai y dygai i gof y bregeth odidog hono a draddododd yr hen ŵr lawer gwaith ar y Mab Afradlon, pregeth na anghofiwyd erioed mohoni gan y neb a'i clywodd, a phregeth, pa bryd bynag y pregethid hi, a adawsai y gynulleidfa yn foddfa o ddagrau o'r llawenydd puraf; neu efallai, drachefn, y cofiai am ryw dro neillduol yr ymwelodd hi â'r capel newydd yn Mhantdefaid, pryd y denid hi yno gan enwogrwydd, ag oedd o hyd ar ei gynydd, y pregethwr ieuanc, y Parch. John James, yr hwn a allasai, trwy ei hyawdledd tanllyd, godi cynulleidfa i'r pwynt uchaf o frwdfrydedd. Nid oedd ynddi brinder o adnoddau ysbrydol. Yr oedd canwyll yr Arglwydd wedi ei chyneu yn ei mynwes pan yn eneth yn ei gwlad enedigol, megys y lusern hono a welir weithiau mewn capeli Pabyddol, ar ochr y ffyrdd ar y Cyfandir, yr hon a gyneuir gan dduwioldeb un dô o addolwyr, ac na adewir iddi byth ddiffodd gan dô arall,—daliai hithau i losgi trwy ei duwioldeb personol ei hun. Ac aml i dro yn nghanol lludded a thrafferthion ei bywyd galluogwyd hi i dremio trwy y caddug, a chael

golwg ar ddybenion y Tragywyddol Dduw; a phan oedd y dyddiau olaf yn araf ymdywyllu oddiamgylch iddi, mae yn ddiamheu genym ei bod o hyd yn gweled pelydrau claerion y byd a ddaw yn gwneyd pob cam yn oleu, ac yn ei helpu i fyned tuhwnt i'r llen, yn ymwybodol fod y Breichiau Tragywyddol odditani, ac yn ei dal i'r làn.—*Y Parch. R. J. Jones, M.A., yn yr "Inquirer," Cyf. gan Olygydd yr "Ymofynydd."*

Y DDAU ARLUNYDD.

TRIGIANAI dau arlunydd enwog mewn dinas boblog, y rhai a gyfrifid yn nodedig am eu medr a'u chwaeth. Yr oedd gan y ddau ddeg mab. Cedwid myfyrgell un o'r arlunwyr yma yn hynod drefnus a glan. Yr oedd pobpeth yn ei le. Gweithiai ei feibion dano. Yr oeddynt yn ufudd i'w orchymynion. Parotoisent ei gynfas iddo. Glanhaent a phurent ei olew drosto. Malent a chymysgent ei liwiau. Golchent a gofalent am ei frwshis. Nid oedd yn rhyfeddod yn y byd fod ei fyfyrgell bob amser yn lan ac yn loew, pan oedd cynifer yno yn barod i'w chadw felly. Paentiai un darlun prydferth bob blwyddyn. Crynhoai at eu gilydd ei holl alluoedd, a gosodai feddwl, a bywyd, a gwaith blwyddyn gyfan mewn un gorchestwaith gogoneddus. Ar derfyn deng mlynedd, yr oedd wedi llanw ei fyfyrgell â deg darlun mor brydferth ag a welwyd erioed. Pawb a'u gwelent a'u hedmygent yn fawr, a theimlai yr arlunydd yn falch ac wrth ei fodd. Dywedai wrth bawb fod pob cyffyrddiad yn yr arlun, a phob cysgod yn y lliwiau, wedi eu gwneyd ganddo ef. Gwyddai fod yr arluniau yn gyfryw nas gellid eu curo.

Ond gadewch i ni edrych i fewn i fyfyrgell yr arlunydd arall. Ni a gawn yno olygfa hollol wahanol. Mae yno gryn anhrefn a thryblith, a llawer iawn o waith anmherffaith, oblegid efe a osododd i bob un o'i feibion orchwyl gwahanol. Yr oedd gan bob mab gynfas o'i flaen; ac ar bob cynfas mae copi gwael ac afler o arlun a wasanaethai megys safon. Pa bryd bynag yr ymwelai dyeithriaid â'i fyfyrgell, nis gallent lai na'i chymharu hi â myfyrgell yr arlunydd arall, a gwelent pa gymaint yn waelach oedd. Dywedent: "Gymaint yn well y trefna yr arlunydd arall ei orchwylion. Pâr i'w feibion ufudd fod o wasanaeth iddo, a gesyd iddynt waith y maent yn gymhwys iddo, a gwaith na ofyn am law y celfyddydwr medrus." Dyna fel y tybient ac y siaradent flwyddyn ar ol blwyddyn. Ond ar ddiwedd y deng mlynedd, ni welai y sawl a ymwelent â'r fyfyrgell hon unrhyw olion o'r darluniau gwael eu lliw y darfu iddynt weled cynt. Yn lle hyny, cawsant ddeg dyn ieuanc yn gweithio, pob un wrth ei arlun ei hun, a phob arlun yn gampwaith. Nis gallent lai na datgan eu

syndod a'u hedmygedd, a dywedent fod y fyfyrgell hon yn tra rhagori ar y llall.

Yna eglurodd yr arlunydd fod pob un wedi llwyddo yn ei amcan. Amcan ei gydymgeisydd oedd paentio deg arlun prydferth a rhyfeddol. Ei amcan ef oedd gwneyd o'i feibion ddeg arlunydd, yn medru paentio, pob un ohonynt, gystal a'i hunan. Er mwyn llwyddo yn ei amcan, gwyddai y byddai yn rhaid iddo wrth amynedd ac i gael ei gamfarnu. Gosodai ei feibion lawer iawn o dreth ar ei amynedd ambell waith—un, o bosibl, yn hynod hwyrdrwm, y llall yn ddifraw ac yn esgeulus. Aeth arlun ar ol arlun yn ddiwerth, ond efe a welai welliant graddol ag oedd yn guddiedig oddiwrth yr ymwelwyr achlysurol. Ni chofia mwyach am ei lafur a'i flinder, teimla fod y canlyniadau yn fwy na llawn dâl iddo.

A dywedai y llymaf o'r sawl a'i barnent gynt:

"Yr ydych yn iawn. Mae, yn wir, yn anfeidrol uwch a gwell i ffurfio deg arlunydd celfydd o'ch meibion nag i baentio deg gorchestwaith. Dylid tosturtio wrth feibion eich cydymgeisydd pan y cymharir nhw â'ch meibion chwi. Nid ydynt hwy amgenach na gweision, ac yn anhebyg hollol i'w tad. Nis gallant wneyd ei waith, na bod yn gyfranog o'i lawenydd."

Yna gofynwyd i dad y deg arlunydd sut y meddyliodd efe erioed am y cynllun oedd yn galw am gymaint amynedd a dyfalbarhad, a sut y cafodd efe nerth i'w weithio allan, ac i ymddal o dan y camfarnu a fu arno?

Atebai fod ganddo hyder yn ei gynllun, am ei fod wedi cymeryd yr esiampl uchaf y gwyddai efe am dani yn safon. "Tybia rhai pobl nas gall y byd hwn ag wyf fi yn ei gymharu i fyfyrgell," meddai, "ddim bod o dan Feistr mawr a doeth, am y gwneir cynifer o bethau yn wael ynddo. Pe gwnelid y cyfan gan y cyfryw Greawdwr Dwyfol, byddai yr oll wedi ei wneyd yn dda. Byddai y byd a'r hyn oll sydd ynddo fel cyfres o ddarluniau prydferth a gorphenedig. Ac fel hyny y byddai pe dyna fwriad Creawdwr a Rhoddwr Bywyd. Ond os Ei amcan, nid yn unig yw cael pethau crëedig, y rhai ydynt ddarfodedig, yn berffaith yn eu bodolaeth amserol, a dygwyddiadau yn odidog tra yr änt heibio, ond, yn hytrach, i gael Ei blant, y rhai ydynt Ei hiliogaeth, yn addas i fywyd Dwyfol, ac i fwynhad fel yr eiddo Ei Hun —yn addas, fel Efe, i ddewis y da a gwrthod y drwg; os dyna Ei amcan, yna Ei gynllun Ef yw y goreu, oblegid yn y ffordd hon yn unig y gall Ei blant gyrhaedd gwybodaeth, doethineb, a phrofiad. Fe ŵyr, yn wir, y bydd iddynt, yn nghwrs eu haddysg, wneyd llawer o bethau yn wael iawn, ac y gelwir y pethau gwaelion hyn yn ddrwg; oblegid nid peth materol sydd yn bodoli yw, ond defnydd cyfeiliornus o bethau da yw. Ni ymyra y Tad a'r Meistr er mwyn cael pob peth wedi ei wneyd yn iawn, yr hyn mae Efe wedi rhoddi y gallu iddynt i'w wneyd fel y gallont, a'r hyn, yn eu hanwybodaeth, y maent yn wneyd yn wael. Ei amcan Ef yw perffeithio Ei blant trwy Ei addysg Ef, a

thrwy eu profiad eu hunain, nes y codont i wir urddas eu natur, a dyfod, nid yn weision, ond yn gyfeillion ac yn gydweithwyr."

Onid oedd yr arlunydd hwn yn iawn yn ei weithred, ac yn ei syniad o lywodraeth ddaionus Duw ar y ddaear? A allwn ni ddim cael yn y ddameg rhyw esboniad ar ddirgelwch drwg, ac ar fod poen a dyoddef yn bresenol yn y byd?

Yr ydym yma yn dysgu byw yn iawn. Fel y mae gwŷr a gwragedd yn dyfod yn fwy tebyg i Grist, ac yn cyflawni gorchymynion Duw yn fwy perffaith, yn cael eu hanog i wneuthur felly gan Ysbryd Crist oddifewn iddynt, faint o ddrygau a ddiflanant oddiar wyneb y ddaear? Ymwrolwn. Y mae y byd yn gwella yn araf, ond yn sicr. Fe wêl ein plant, a phlant ein plant, iachawdwriaeth fwy nag a ydym ni wedi weled.

A ninau ein hunain. Wel, ni a gredwn nad yw ein haddysg yn terfynu yn angeu. Ni wnai yr arlunydd doeth dywyllu ei fyfyrgell, na chymylu ei gynfas, na thynu y brwshis allan o law ei feibion gyda eu bod yn dechreu deall eu gwaith, a dechreu ei wneyd yn dda. Ac nis gallwn ninau gredu y bydd iddo Ef, gyda ein bod yn deall amcan bywyd, a'n calonau yn dechreu ymlenwi â'r awydd angerddol i wasanaethu Duw a Christ, anfon Ei wŷs i ddiffodd ein bywyd ac i atal ein gwaith. Na; gwell genym gredu y bydd marwolaeth, ag sydd yn ymddangos mor ofnadwy yma, yr ochr draw yn angel bywyd a goleuni i'n tywys ni trwy lysoedd y nefoedd, a'n dwyn ni yn nes at ein Tad mewn gwasanaeth a chymeriad, ac yn nes at yr Iesu, yr Hwn a adawodd i ni esiampl fel y canlynem Ei ôl.

UN GORCHYMYN AR DDEG.

WEDI iddi fyned yn llongddrylliad arno ar lân Môr yr Iwerddon, ac wedi ei amddifadu bron yn hollol o'i ddillad, crwydrodd yr Archesgob Ussher, yn ddyn ieuanc ar y pryd, nes dyfod i dŷ pendefig Eglwysig, lle y gofynodd am nawdd a chynorthwy ei frawd gweinidogaethol. "Pa sawl gorchymyn sydd?" ebe hwnw, gan ddysgwyl ei brofi yn dwyllwr. "Atebaf chwi yn union ac i foddlonrwydd," ebe'r archesgob, "gan brofi nad wyf fi'r twyllwr y cymerwch fy mod. Y mae un gorchymyn ar ddeg." "Nac oes," ebe hwnw, mewn llais gwawdlyd; "nid oes ond deg gorchymyn. Adroddwch i mi yr unfed-ar-ddeg, ac mi a'ch credaf." "Dyma fe," ebe yr archesgob, "'Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu ohonoch eich gilydd!'"

Y FFORDD I GYSGU YN DDA.

SCWEIER JONES, o Blasygraig, oedd yn methu yn lan a chael cysgu. Yr oedd ganddo balas ardderchog, a digon o gyfoeth. Yr oedd ganddo feusydd heirdd a ffrwythlawn, cerbyd gwych, a cheffylau gwych yn ateb. Arlwyid ei fwrdd â phob math o ddanteithion, ac yr oedd ganddo gyfeillion o'r mwyaf llawen yn y byd. Eto i gyd, yr oedd Scweier Jones yn methu yn lan a chysgu. Weithiau elai Scweier Jones i'r gwely yn gynar, weithiau yn ddiweddar; ond cynar neu ddiweddar, yr un oedd y canlyniad—yr oedd Scweier Jones yn methu cysgu. Dim heddwch i'r annuwiol, dim gorphwys i Scweier Jones. Aeth i ofyn cynghor gan ei gyfeillion, a dywedodd y rhai hyny wrtho lawer o bethau—un a'i cynghorodd i gymeryd rhagor o ymarferiad corfforol, rhagor o *exercise;* un arall a fynai iddo yfed gwydraid *extra* o *grog* cyn myned i'r gwely, fod hwnw yn gap nos da, yn *good night-cap.* Aeth at y meddyg, yr hwn a roddodd iddo opiwm a lodnwm; ond er gwaethaf *exercise* a *grog*, er gwaethaf lodnwm ac opiwm, methu yn lan a chysgu oedd Scweier Jones, o Blasygraig. O'r diwedd, aeth i adrodd ei gŵyn wrth Twmi'r Garddwr.

Yn awr, yr oedd Twmi yn ddyn a chryn dipyn yn ei ben; yr oedd hefyd yn ddyn gonest a chywir; ac y mae gonestrwydd a chywirdeb yn rhinweddau ydynt mewn parch hyd yn nod hyd y dydd hwn. O leiaf, yr oedd gan Scweier Jones farn uchel am Twmi'r Garddwr. O'r tu arall, fe wyddai Twmi am rai pethau nad oeddynt i'w canmol yn y Scweier. I beidio manylu gormod, gwyddai nad oedd nemawr o ofn Duw yn ei galon; gwyddai ei fod yn rhy fynych yn anghyfiawn ac yn greulawn, yn draws i'r weddw a'r amddifaid, a bod ei gydwybod yn ei flino; ac felly, dywedodd wrth y Scweier fod Wil y Gof, ar odre'r tir, yn cysgu yn reit dda bob amser, ond efallai ei fod yn myned i'w wely gyda gwahanol fath o gapan nos ar ei ben.

Camddeallodd y Scweier feddwl Twmi. Aeth âg un o'i gapanau nos goreu yn ei boced i'w newid am gapan Wil y Gôf. Cafodd gapan Wil i fyned yn ol gydag ef. Mynodd ef wedi ei olchi yn ofalus a'i "airio" yn dda; a phan aeth hi yn nos, aeth i'r gwely yn llawn ysbryd hapus, ac yn gobeithio cael noson gysurus o gysgu, yr hyn nid oedd wedi ei gael er's llawer o amser. Ond na, nid oedd dim llwyddiant eto, er iddo ddodi'r capan, capan Wil y Gôf, ar ei ben, a'r ffordd hyn a ffordd arall, a threfnu ei hunan yn mhob dull a modd, nid oedd dim gorphwys i Scweier Jones wedi'r cwbl. Cyn gynted ag y darfu i'r haul godi, cododd y Scweier yntau, a gwisgodd am dano. Brysiodd at fwthyn Wil y Gof ar odre'r tir, i gael clywed sut oedd Wil wedi cysgu. Atebodd Wil nad oedd wedi cysgu'n well yn ei fywyd, ac yr oedd yn llawen iawn ac yn falch iawn ar ei gapan newydd.

Yn flin ac yn ofidus, aeth y Scweier yn ei ol, a galwodd wrth basio ar Twmi'r Garddwr, i adrodd yr aflwyddiant oedd wedi canlyn ei gynllun o fenthyca capan nos Wil y Gof.

"Nis gall fod mai yn nghapan nos Wil y mae y rhinwedd," ebe fe, "canys darfu i Wil y Gof wisgo un o fy nghapanau i, ac mae'n dywedyd iddo gysgu yn reit dda, ac na fu ganddo ddim capan nos mwy cysurus ar ei ben erioed yn ei fywyd."

"Ah, syr," ebe Twmi, gan siglo ei ben mewn modd arwyddocaol iawn, â'i bwys ar ben ei bâl, "ond y mae'n sicr genyf ei fod yn gwisgo capan arall, heblaw yr un a roddodd i chwi wisgo, sef capan *cydwybod dawel;* ac mae'r sawl a wisgo hwnw yn sicr o gysgu yn dda, gwisged pa gapan arall a fyno."

TYNGU A RHEGI.

(O Gronfa B.C.D.)

Yr wyf yn methu dychymygu am un rheswm da paham y dylai un dyn dyngu a rhegi, ond gallaf feddwl am lawer paham y dylai beidio.

1. Peth gwael a gwarthus yw, a byddai cystal gan ddyn o safle foesol uchel ymostwng i ladrata coes llwdn dafad oddiar fwrdd y cigydd ag y gwnai dyngu a rhegi.

2. Mae yn fylgar, yn hollol ry isel i un dyn a chanddo ronyn o hunan-barch.

3. Mae yn gowardaidd; ac yn lledawgrymu fod ar y person ofn na chaiff ei gredu, neu na chaiff yr ufudd-dod yr ystyria yn ddyledus iddo.

4. Mae yn anfoneddigaidd i'r eithaf. Bonwr yw dyn bonedd, o ysbryd mwyn, caredig; mewn gair, Cristion, un awyddus i wneuthur i arall fel y dymunai fod arall yn gwneuthur iddo yntau. Nid aiff dyn felly allan i'r heol i ymgodymu âg ysgubwr simneiau.

5. Mae yn anweddaidd, yn wrthwynebydd i bob teimlad o foesgarwch, ac yn sicr yn hollol anaddas i glustiau dyn da.

6. Mae yn ffol; mae diffyg gweddeidd-dra yn ddiffyg synwyr.

7. Mae yn achos niwed i'r meddwl sydd yn ei gynyrchu, i'r tafod sy'n ei draethu, ac i'r person y cyfeirir ef ato.

8. Mae yn wenwynllyd, yn dangos fod calon dyn yn debyg i nyth o seirff gwenwynig, a phob tro y byddo yn rhegi y mae un ohonynt megys yn ymwthio allan o'i ben.

9. Mae yn ddirmygus, ac yn amddifadu dyn o barch pob dyn doeth a da.

10. Mae yn bechadurus, yn drosedd ar ddeddfau y Duw Mawr, yn cyffroi anfoddlonrwydd yr Hwn na wna gyfrif yn ddieuog yr un a gymero Ei enw yn ofer.

CREULONDEB AT GREADURIAID MUDION.

(CYFIEITHIAD O WAITH COWPER, 1731-1800.)

BYTH, byth, ni chyfrifwn yn mhlith fy nghyfeillion,
Er meddu moesgarwch, a synwyr hyd ddigon,
Y dyn, yr abwydyn ddamsango ar y gwastad,
O bob cyd-deimladrwydd yn hollol amddifad.

Un cam, yn ddifwriad, all lethu'r falwoden
Ymlusga y d'wedydd dros wyneb y d'warchen;
Ond dyn o ddynoliaeth, ar ol ei rybuddio,
Ad iddi ei bywyd, gan droi ei droed heibio.

Os dringo wna pryfyn, yn atgas i'w weled,
A'i gŵd yn llawn gwenwyn, a'i amcan er niwed,
I'r ardd, i'r ystafell, neu lefydd neillduol
I harddwch, cartrefle creaduriaid rhesymol:

Er rhoi hwn i farw, nid addas yw beio,
Am ddwyn arno'i fywyd, mae wedi tramgwyddo;
Ond eto, gwell fyddai ei daflu ef allan
Yn mhell o blith dynion, i aneddle'r ddylluan.

Pan fyddont yn cadw o fewn iawn derfynau,
Gan grwydro drwy'r awyr, neu wibio trwy'r caeau,
I chwilio am ymborth, 'does achos i'w beio;
Mae'r ple yn wahanol, mae ganddynt hawl yno.

Mae'r dyn a êl yno i'w hela, a'u drygu,
Yn tori deddf natur, iawn yw ei geryddu;
Doethineb, ei theyrnas i bob un a drefnodd
Ei le i drigfanu, pan gyntaf ei creodd.

'Nawr, dyma gynwysiad 'r hyn wyf yn ei dd'wedyd,
Os bydd cyflensderau, dyogelwch, neu iechyd,
Creadur rhesymol, yn gofyn eu difa,
Rhaid iddynt roi fyny, ei hawl ef sy flaena';

Ond os na fydd hyny, 'does un a ffûn ynddo,
Y gwaelaf a welwn heb gystal hawl ganddo
I fywyd a'i fwyniant ag oedd gan y Crëydd
I'w ffurfio'n y cyntaf, o'i gariad tragywydd.

Dduwiolion! am hyny, sy'n caru trugaredd.
O dysgwch i'ch teulu 'run anian nefoledd,
Pan fyddont yn eistedd ar luniau eu mamau,
Yn weinion fabanod, yn sugno eu bronau.

Llychwynir a llygrir, boreuddydd eu dyddiau,
Fynychaf o ddynion, gan flaendardd y drygau ;
Syn foreu yn gofyn llaw gelfydd i'w rhwystro,
A'u difa yn hollol, pan fo'nt ar flaguro.

Och feddwl! creulondeb yn frasaf a dyfa,
O bob peth sydd atgas, os na cha atalfa ;
I bawb y mae'n amlwg, ond sylwi ychydig,
Mai hon, o'r holl ddrygau, yw'r mwyaf diafledig.

Rheolau cyfiawnion llywodraeth y nefoedd
Yw talu i bob un yn ol ei weithredoedd ;
Trugaredd i'r addfwyn a fyddo drugarog,
Yw anian nefoledd y Duw Hollalluog.

A fo drwg ei fywyd, heb ddangos trugaredd,
Ag euog gydwybod, pan neso i'w ddiwedd ;
Wrth daer lefain, "Arglwydd, fy mhechod, O, maddeu,"
Glyw'r ddedfryd frawychus, "Dos ymaith i'r gwaeau."

Y Diweddar John Jones, Aberdar (1802-1863).

(O'r "Llyfr Ysgol Sul," 1839.)

YR YSBRYD GLAN.

SONIWN am ddisgyniad yr Ysbryd Glan fel rhywbeth ddygwyddodd yn yr hen amser gynt. Gadawer i ni sylweddoli nad peth anghyffredin yw; ond pryd bynag y byddo yn fflachio ar enaid dyn deimlad o Ddwyfoldeb a gogoniant bywyd, fod yr Ysbryd Glan yn disgyn y pryd hwnw. Gadawer heibio y gair Glan, neu Sanctaidd, fel y mae'r Saesoneg, am foment, a gwelwn y meddwl yn eglur. Tucefn i bob dyfais, darganfyddiad, neu fuddugoliaeth, tucefn i bob llinyn ymresymiad a phob ymdrech wirioneddol y byddo amgylchiadau yn cael eu moldio, y mae dyfodiad yr Ysbryd yn ganfyddadwy—Ysbryd dealltwriaeth, a doethineb, a gwerthfawrogiad. Y mae tair ffynonell gwybodaeth—profiad, addysg, ac ysbrydoliaeth. Ceir y dydd hwn eglureb amlwg o wirionedd mawr. Y mae ysbrydoliaeth yn ffaith wirioneddol. Fe ddisgyn yr Ysbryd ar arlunwyr, ar feddylwyr, ar wrywod a benywod fo'n ymdrechu dyfod at sylwedd pethau. Yn 380 o.c., gwnaed cam mawr. Cyhoeddwyd fod dylanwad sanctaidd Duw yn Berson, a llyffetheiriwyd Ef â chadwynau, sydd yn clancian hyd heddyw, yr hyn sydd yn anadlu yn yr awyr, yn trystio yn mhlith y dail.

DIOFALWCH CREFYDDOL.

NID wyf yn credu fod y lluaws dynion—dynion o ddeall a gwrtaith—sydd yn ymneillduo yn y dyddiau presenol oddiwrth wasanaeth cyhoeddus crefydd yn cymeryd y llwybr a fydd yn hollol er boddlonrwydd iddynt fel y mae amser yn y blaen. Y mae eu meddwl a'u teimlad crefyddol hwy yn gyfoethog o oroesion prydferth lawer addysg boreu bywyd—ffurfiau ffydd a gobaith a feithrinid yn dyner gan eu rhieni. Bydd yn wahanol gyda'u plant, gan na fyddant hwy wedi eu dwyn i fyny dan yr un gwrtaith, nac wedi cael yr un fath etifeddiaeth; iddynt hwy, bydd y ddaear a'r wybren eto yn brydferth, a bydd i waith pob dydd ei wasgfa ardderchog, ac arllwysa cariad ei ddysgleirdeb naturiol ar eu calonau. Ond ni fydd iddynt ddyrchafiadau calon ac ewyllys at y gogoniant uwchafol sydd hwnt i'r ser pellaf, nac un teimlad gwefreiddiol wrth glywed yr enwau mawrion sydd hyd yma wedi codi uwchlaw pawb ereill yn mlaenfynediad amser. Neu, ac y mae hyn yn fwy tebyg, ar ol cael allan ryw wagder mawr ynddynt eu hunain, nad yw yn cael ei lenwi gan fusnes, na llenyddiaeth, na chelfyddyd, na hoewder cymdeithas, na sirioldeb cartref, deuant yn eglurebiad (*illustration*) o ddeddf mydr a chynanedd, deddf gwrthweithiad, o'r hon y mae Mr. Herbert Spencer yn gwneuthur cymaint o sylw, a throant yn eu hol oddiwrth eu negyddiaeth crefyddol at rywbeth cadarnhaol iawn—dyweder, yr Eglwys Babaidd. Y mae dyofalwch crefyddol pobl gwrteithiedig yn fath o lestr magu (*breeding-tank*) i roi cynysgaeth o dröedigion i'r gyfundrefn grefyddol hono, neu un gwbl mor groes i reswm. Y mae eu plant mor feddal a ffwti yn llaw y dyn cyntaf a ddelo yn mlaen gydag unrhyw argyhoeddiad cryf, neu *hobby*, neu ffàd fawreddog.

Y PARCH. JOHN W. CHADWICK.

Y DYFODOL.

FFYDD, a Gobaith, a Chariad, a holwyd pa beth a feddylient
Am y gogoniant dyfodol, y soniai crefydd am dano;
'Nawr, Ffydd a *gredai* yn gadarn ei fod yn berffaith wirionedd;
A Gobaith *ddysgwyliai* hefyd mai felly y byddai;
Ond Cariad atebai gan wenu, a chyda rhyw wres ellid deimlo,
Credu? Dysgwyl? 'Rwy'n *Gwybod;* mai felly y bydd 'rwyf fi'n GWYBOD.

DR. BYROM.

RHO HELP, EIN DUW.

(MESUR 11.10.)

WYLO ni wnawn ; can's Duw sydd darian ini,
Gwnai dagrau'n rhwystro i wel'd y Wynfa Lan ;
Amheu ni wnawn, os pery'r gwyll i'n dallu,
Cawn wawl yn glau na chawd ei fath o'r blaen.

Llesghau ni wnawn ; os trymion fydd ein beichiau,
Ni fydd y wasgfa'n fwy na allwn ddwyn ;
Mae'r ddreiniog ffordd yn gorwedd wrth ein cefnau,
A ninau'n gryfach wedi'n cur a'n cwyn.

Nid mewn amheuaeth teithiwn hyd y diwedd,
Fe edy'n pechod ni cyn pen y daith ;
Cyflawnir ein gobeithion mewn gorfoledd,
A byw a gawn 'rol gorphen yma'n gwaith.

Rho help, ein Tad, pan fyddo'r byd yn gwasgu,
A ni mewn llesmair eisieu Car o werth ;
Rho help, ein Duw, a'th fendith yn mhob cyni,
Ac yn ein holl wendidau, rho dy nerth !

—*Gwel Emyn* 362, *E. H. H.*

Rhagfyr, 1898. T. C. U.

Y BRADWR.

(Cyd-fuddugol yn Eisteddfod Bwlchygroes â Bardd Cadeiriol Gwrecsam, 1895.*)*

DAWN a geiriau dyngarwr—a fedda
Y gorfeiddiog fradwr ;
Hagraethus, ffals ragrithiwr,
A gwenwr gau gawn yw'r gŵr.

Esgus-ddiniweidrwydd wisga,—yn hug
Yn hon y byd dwylla ;
Enbyd ddyn yw'r bôd di-dda,
Ei frad gledd 'n ei frawd gladda.

Dyffryn Cerdin. BEN DAVIES.

Y PARCH. ROBERT SPEARS.

MAE marwolaeth y gweinidog gweithgar y mae ei enw yn benawd i'r nodiadau hyn wedi gadael bwlch yn ein mysg fel enwad y bydd yn anhawdd ei lanw am lawer blwyddyn hir. Nis gellid, o bosibl, ei ystyried yn un o dalentau mwy dysglaer nag eiddo ereill o'i frodyr yn y weinidogaeth, ond gellir dyweyd iddo wneyd y defnydd goreu o'r galluoedd oedd yn ei feddiant. Yn ystod oes faith, gweithiodd yn galed; a mwy, gweithiodd i bwrpas da; dilynwyd ei ymdrechion â llwyddiant ag oedd bron yn anarferol. Gan fod braslinelliad o'i yrfa a'i waith wedi ymddangos eisoes ar dudalenau yr YMOFYNYDD, ni wnawn yma ragor na nodi y ffaith o'i farwolaeth.

Breintiwyd ef âg iechyd rhagorol, yr hyn a'i galluogodd i lafurio mor ddiarbed o blaid yr hyn a ystyriai efe yn wirionedd crefyddol; ond tua diwedd y flwyddyn llynedd, teimlai fod ei gyfansoddiad yn dechreu rhoddi ffordd, ac y byddai yn rhaid iddo gynilo ar ei adnoddau. Tua dechreu y flwyddyn hon, gwaethygai o hyd, ac ymddangosai ei boen, ambell waith, yn annyoddefol; ond ar nos Sadwrn, Chwefror 25ain, daeth marwolaeth, megys angel gwyn ei edyn, i roddi iddo ryddhad oddiwrth ei holl arteithiau. Ar adeg ei farwolaeth, yr oedd yn 74 mlwydd oed. Ar y Mercher canlynol, claddwyd yr hyn a allesid ohono yn nghladdfa gyhoeddus Nunhead, lle y gorphwys gweddillion aelodau anwyl ereill o'r teulu. Am haner awr wedi deuddeg, cynaliwyd gwasanaeth yn nghapel Highgate, lle yr oedd yr ymadawedig yn weinidog, ac yr oedd yr adeilad yn orlawn o bobl na allasent lai na theimlo yn ddwys ar ol cyfaill ag oedd cynifer o nodweddion ardderchog yn ymgyfarfod ynddo. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. Ddr. Brooke Herford, ac ereill.

Mae yr eglwysi Undodaidd yn Nghymru wedi cael colled fawr, oblegid ni fu ganddynt erioed gyfaill cywirach, ac a garai eu llwyddiant yn fwy na Mr. Spears. Yn Nghyfarfod diweddaf Gweinidogion yr enwad yn Merthyr, Aberdar, a'r cylch, pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â'r weddw yn ei thywydd garw, a thalwyd teyrnged o ddiolchgarwch gwresog am y ffordd garedig yn yr hon yr ymddygai Mr. Spears bob amser at ein hachos yn Nghymru.

LLYFRAU.—Y rhai hyn ydynt athrawon a ddysgant ddynion, ac a'u ceryddant heb ddim digofaint. Pan eloch atynt, nid ydynt un amser yn cysgu; os holwch hwynt, ni chelant ddim; os camgymerwch eu hystyr, ni rwgnachant; ac os ydych yn anwybodus, ni allant chwerthin am eich pen.

ARFOGAETH DUW.

YFFORDD oreu i gyfarfod âg unrhyw ddrwg yw amlygu y gwrthwyneb iddo yn eich bywyd, peri dysgleirio arno oleuni cyfiawnder a chariad. Os am wanychu a dymchwelyd balchder mewn dynion, neu yn eich cyfeillion, bydded i chwi wisgo eich hunan â gostyngeiddrwydd. Os mynwch ddinystrio celwydd, gwnewch yn eglur yn eich holl garitor y gwirionedd sydd yn wrthwynebol iddo. Os am wneuthur i ffwrdd âg unrhyw ddrwg, gadewch i'r ysbryd maddeugar ymddysgleirio o'ch mewn. Os mynwch orchfygu anobaith yn eich cyfaill, gadewch i obaith didrai lewyrchu yn eich llygaid, a bod yn llawn hyawdledd ar eich tafod. Peidiwch bygylu, eithr ymlewyrchwch. Ewch rhagoch, oll yn ymleuferu, gan fyw a gwneuthur y pethau a berthynant i ffydd a chyfiawnder, gobaith a llawenydd, heddwch a gwirionedd. Pan allwn lewyrchu felly, bydd gogofäu tywyllwch wedi eu llenwi â goleuni. Yna'r creaduriaid sydd yn byw ynddynt a amlygir fel y maent, yn wrthddrychau o warth ac atgasrwydd; y byd a'u gwêl yn eglur, ac a frawychir. Byddant yn ysmician ar y goleu, fe'u tynir allan o'u tyllau a'u corneli ganddo, syrthiant yn ddall, a byddant farw, Yr ogofäu eu hunain a rwygir ar wahan. Y mae goleu ein harfogaeth yn chwilfriwio'r tô, yr hwn a ymddangosai megys craig, ac nid oedd yn ddim ond cwmwl halog, a chaddug tew. Y mae gogoniant Duw ynom yn ymarllwys i'r gwagle tywyll, ac mewn dyddiau i dd'od yn newid cartref anghenfilod i fod yn ddyffryn o ddyfroedd peraidd. Yno tyf blodau cariad a daioni, yno y rhodia gwrywod a menywod mewn tangnefedd a llawenydd. Dyma, ynte, ran o'r frwydr Gristionogol. Chwi ydych o'r goleuni, rhodiwch yn y goleuni.—*O'r "Gospel of Joy," llyfr newydd y Parch. Stopford A. Brooke, M.A., LL.D.*

Y GWRYCHYN.

(Buddugol yn Tregroes.)

UN main fel llin y mynydd,—o hydwyth
A gwrthneidiol awydd;
Hydyn yw'r "gwrychyn" i grydd
Flaenio'i edef fel nodwydd.

Dyffryn Cerdin. BEN DAVIES.

MANION AC HANESION.

ALLTYPLACA.—Cynaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei Gwyl Dê flynyddol ar yr 8fed dydd o Fawrth. Daeth tyrfa fawr o ddeiliaid yr Ysgol o bob oed, yn nghyda llawer o gyfeillion, at eu gilydd i gyfranogi o'r danteithion a barotoisid mor helaeth ar eu cyfer. Yr oedd yn wledd o'r fath oreu. Bu cyfarfod adloniadol yn yr hwyr o dan arweinyddiaeth fedrus Mr. T. Gwarnant Williams, a da genym allu dyweyd fod y gwaith wedi bod yn llwyddianus iawn o'r dechreu i'r diwedd. Teilwng yw coffa fod traul a llafur y tê wedi eu dwyn gan Mrs. Evans, Dolau-uchaf, a Miss Evans, Maesymeillion. Ewch rhagoch, gyfeillion Alltyplaca, fel y gallech obeithio am ragor o lwyddiant eto.

DYDDOROL.—Yn *Cymru* am Mawrth, ceir tri darlun ardderchog na allant lai na bod o ddyddordeb i bob Undodwr. Darluniau ydynt o hen gapel Llwynrhydowen, y capel newydd, a bedd y diweddar Gwilym Marles Tynwyd hwynt gan Mr. J. Thomas, Liverpool.

MEWN llythyr a anfonwyd gan gyfaill at y Parch. R. J. Jones, M.A., yn cydymdeimlo âg ef yn ei drallod, yr oedd y penill swynol hwn:—

"Mae'n anodd teimlo weithie,
Dan gysgod du gymyle,
Fod neb yn dal y llyw;
Fe gliria'r awyr eilweth,
Adfywia ffydd a gobeth,
Fod Tad yn dal y llyw."

Y GRAIG A GELLIONEN.—Gan frawdoliaeth y ddau gapel uchod nos Sul, Chwefror 26ain, cafwyd un o'r cyfarfodydd adroddiadol goreu a gawsom erioed yn y lle hwn. Gwnaeth y dô ieuanc yn ardderchog. Ni chynaliwyd y cwrdd adrodd er's talwm cyn hyn, ond yn y dyfodol, bwriedir ei gynal yn chwarterol.—Hefyd, mae mu liad ar droed i wneyd trysorfa i'r brawd cystuddiol James Evans, Station House, Pontardawe. Mae yn ei gyfyngder er's amryw fisoedd. Gwnaed pob un ei oreu drosto. Dyma aelod ffyddlawn a chyfaill twymgalon, ac ymddyddanion adeiladol ganddo bob amser. Oddiamgylch â'r blwch, bwriwn i fewn.

TREBANOS.—Mae etholiad y Bwrdd Ysgol drosodd, wedi llawer o firi sectyddol a thrahaus. Mae Mr. Edward Bevan, grncer, yn drydedd ar y rhestr. Hawddamor, gyfaill; ati "â'th holl galon, ac â'th holl nerth." Nis gwyddom a fu Mr. Bevan o gylch yn casglu pleidleisiau ai peidio. Gwyddom am ereill. A gosod y pwnc yn y glorian, yn ngoleuni Efengyl Mab Duw, nid yw peth fel hyn yn deg. Rhoddwn *fair play* i'r werin-bobl i fesur a phwyso y dyn goreu, ac nid myned o dŷ i dŷ fel plantos yn bwhwman yn y nos. "Yr hwn a ddyrchafo ei hun, a ostyngir; a'r hwn a ostyngo ei hun, a ddyrchefir."—*Alarm.*

CAPEL-Y-FADFA.—Dydd Gwener, y 3ydd o Fawrth, cynaliodd brodyr y capel uchod eu gwyl flynyddol. Yr oedd yr hin yn ddymunol, ond nid yr oll felly. Pan oeddem ar gychwyn tua'r capel ymdaenodd y newydd pruddaidd am farwolaeth Mrs. Eleanor Thomas, Glyn Cottage, mam yr adnabyddus Mr. J. R. Thomas, yr hwn, yn nghyda'i frodyr, sydd yn golofnau i'r achos yn Nghapel-y-Fadfa. Oherwydd hyn, amddifadwyd ni o'u gwasanaeth; ond ni fynent i ni lai ua gwneyd ein goreu er gwneyd yr oll i droi allan yn llwyddiant. Wedi i bawb helpu eu hunain o'r cyflawnder danteithion oedd wedi eu parotoi ar ein cyfer, ac i'r plant gael digon o redeg am felusion, &c., daeth yr amser i fyny i ni fyned drosodd i Ysgoldy y Bwrdd, Talgareg, er cynal cyngerdd, gan fod y capel yn anfanteisiol i berfformio y *dramas* oedd wedi eu parotoi gan gyfeillion o'r Llwyn. Oherwydd absenoldeb yr arweinydd, ac fod y rhaglen yn faith, barnwyd yn ddoeth i Gôr y Bwlch roddi eu lle i ereill am y tro. Cymerwyd y gadair gan Cadben Davies, ac arweiniwyd gan y Parch. T. C. Benjamin, Pisgah. Un lloni ar y dechreu, rhoddodd Miss G. Thomas, Green Park, unawd ar y berdoneg, a dilynwyd hi gan Gôr Plant y Bwlch, o dan arweiniad Mr. J. P. Lewis. Yr oedd y côr hwn yn swynoo pawb. Cawsom *solos* gan Mr. Arthur Thomas, Pantdefaid; Miss Evans, Tynant, Cilie; Miss Jones,

Ddolwen; a Mr. James Thomas, Sychbant. Caneuon digrifol gan Mr. David Jones, Rhydfene; Mr. Jones, Felin, Rhydowen; a Mr. Davies, Castellhywel. Canwyd amryw dônau gan gyfeillion o'r Bwlch, St. John's, Llwyn *Male Voice Party*, Pantdefaid, a Cilie. Pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad â theulu y Glyn yn eu trallod, ac ar gais Mr. Benjamin, canwyd "Bydd myrdd o ryfeddodau," &c., gyda hwyl neillduol. Rhoddodd cyfeillion y Llwyn berfformiad o'r *dramas*:—"Starvation and Stupid Servant," a'r *Nigger Party*, gyda llawer o fedrusrwydd a naturioldeb. Nid oedd prinder cymhorth i chwerthin yn ystod yr amser hwn. Amlwg oedd fod pawb yn mwynhau eu hunain yn hollol. Diolchwyd yn wresog i Miss Thomas, Green Park, a Miss Jones, Gellifaharen, am chwareu ar y berdoneg, ac i Mrs. Jones am ei fenthyg, ac nid hyny yn unig, ond gofalu am ei gludiad yn ol a blaen. Hefyd i bawb fu yn cymeryd rhan yn y cyngerdd, yn neillduol pobl Cilie. Nid ychydig aberth oedd dyfod oddiyno i Talgareg, ac yn ol yr un noson. Hefyd, nid anghofiwyd y llywydd a'r arweinydd am eu gwasanaeth effeithiol i gadw y cyfarfod mewn trefn. Dygodd canu "Hen Wlad fy Nhadau" y cyngerdd i derfyniad. O dan yr amgylchiadau a nodwyd, cawsom gyngerdd gwir dda, ac elw sylweddol.—*G.*

PRIODASAU.

CHWEFROR 24ain, yn Nghapel y Bryn, gan y gweinidog, ac yn ngŵydd y cofrestrydd, Mr. Thomas Davies, Ty'nygruguchaf, â Miss Mary Evans, Cwmbach. Bywyd o hapusrwydd i'r ddau.

MARWGOFION.

CHWEFROR 21ain, yn 16 mis oed, Mary Jane, anwyl faban Eleanor Williams, Tanllan, Llanwnen. Claddwyd hi yn mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. E. Jenkins.

MAWRTH 7fed, yn 54, Harriet Street, Aberdar, Mr. James Moses, yn 54 oed. Claddwyd ef ddydd Gwener; y Parchn. Jenkin Thomas a T. J. Jenkins, Gellionen, yn gwasanaethu. Yr oedd Mr. Moses yn aelod yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd, ac mewn parch mawr gyda'i gydnabod a'i gymydogion yn gyffredinol, oll yn dymuno i'r weddw a'r plant nawdd Duw a'i dangnef.

MAWRTH 11eg, David Davies, Undergrove, ger Llandebr, yn 84 mlwydd oed. Bu ein cyfaill yn wael am rai blynyddau cyn i'r terfyn dd'od. Yr oedd David Davies yn ddyn oedd yn cael ei fawr barchu gan bawb o'i gydnabod ar gyfrif ei ddidwylledd a'i ddiniweidrwydd. Gadawodd briod oedranus a phlant ar ei ol yn nyffryn galar. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. Davies, Alltyplaca, ac Evan Evans (A.), Llanbedr. Claddwyd ef yn mynwent Capelygroes.

MAWRTH 12fed, yn nhŷ ei ewythr a'i fodryb, Mr. a Mrs. Davies, 34, Margaret Street, Trecynon, Aberdar, Wm. James, yn 25 oed. Yr oedd y brawd ieuanc yn ŵyr i'r James James a gofebwyd yn YMOFYNYDD Gorphenaf, 1898, gan yr hwn, a'i ferch wedi hyny, yr oedd wedi ei ddwyn i fyny. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. Jenkin Thomas.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.